

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymuned Moelfre

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gymuned Moelfre yn rhan o Ffederasiwn Gwêl Y Glannau gydag Ysgol Goronwy Owen. Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad cadarn ac yn hyrwyddo cydweithio fel tîm ar draws y safleoedd yn hynod lwyddiannus. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar sicrhau lefelau lles a safonau uchel, gyda phwyslais ar sicrhau cysondeb ym mhrofiadau disgyblion yr ysgolion unigol. Mae'r staff yn cydweithio'n agos iawn mewn timau addysgu ar draws y ffederasiwn i gynllunio profiadau dysgu buddiol ac ysgogol. O ganlyniad, mae'r addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol.

Mae'r athrawon yn darparu gwersi sy'n ysgogi'r disgyblion, ac yn eu hannog i ddatblygu'n dysgwyr annibynnol yn effeithiol. Cânt eu cefnogi gan gymorthyddion sy'n hyrwyddo'r dysgu yn fedrus. Maent yn cynnig gofal ac arweiniad o safon uchel ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac anghenion emosiynol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu medrau llythrennedd yn llwyddiannus, ac erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n naturiol yn y Gymraeg. Maent yn ysgrifennu'n bwrpasol mewn ffurfiau gwahanol. Er hynny, mae'r gorddefnydd o fframweithiau caeth yn golygu nad ydynt bob tro'n cymhwyso eu medrau ysgrifennu yn llawn mewn gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau rhifedd yn hyderus, er enghraifft wrth gyfrifo gan ddefnyddio dulliau ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwaith ar draws y cwricwlwm mor gyson. Ar draws yr ysgolion, mae disgyblion yn datblygu medrau digidol cryf.

Mae arweinwyr yn adnabod ysgolion y ffederasiwn yn dda. O ganlyniad i brosesau clir ac ethos o hunanwerthuso gonest, mae ganddynt adnabyddiaeth gadarn o'r prif gryfderau a meysydd i'w datblygu.

# Argymhellion

**A1 Lleihau’r defnydd o fframweithiau parod er mwyn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu ymhellach mewn tasgau ar draws y cwricwlwm**

**A2 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm**

**A3 Cydymffurfio’n llawn â’r canllawiau statudol ar fwyta’n iach mewn ysgolion**

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymuned Moelfre |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 60 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 52 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 8 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 23.0%) | 37.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 16.1%) | 15.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 17.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2017 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/04/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 06/03/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/05/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.